

9 Gorffennaf 2020

Mae Alun Griffiths (Contractors) Ltd wedi ei penodi gan YGC (Cyngor Gwynedd) yn Brif Contractwr i weithio ar Cynllun Lliniaru Llifogydd Rhostryfan.

Hoffwn eich hysbysu bydd y gwaith yn cychwyn yng nghanol y pentref dydd Sadwrn 18 Gorffennaf ac yn parhau am gyfnod o bymtheg wythnos, fodd bynnag gwneir pob ymdrech i gwblhau'r gwaith hyn yng nghynt.

Yn ystod y cyfnod hwn bydd y ffordd sy'n arwain trwy bentref Rhostryfan, o'r A487 Ffrwd Cae Du tuag at Rhosgadfan, ar gau i bob traffig yng nghanol y pentref, o'r gyffordd i Rhos Isaf hyd at yr Hen Swyddfa Bost. Cynhelir mynediad drwy'r amser i Ysgol Rhostryfan yn ogystal a'r eiddo eraill yn gyfagos iddi, fodd bynnag, ni fydd mynediad ar gael o ganol y pentref i Rhos Isaf. Mae cau y ffordd yma yn hanfodol i ganiatau gwaith na ellir, fel arall, yn ymarferol ei wneud drwy ddefnyddio goleuadau traffig yn unig.

Mae rhybydd y bydd y lon ar gau wedi ei hysbysu yn y papurau lleol a mae arwyddion yn rhybuddio'r cyhoedd o'r gwaith yn cael ei arddangos ar bob ochr o'r ardal sydd yn cael ei effeithio a fe fydd hefyd arwyddion dargyfeiriadau yn eu lle a gofynnwn yn barchus i chi lynu at y rhain.

Gallwn sicrhau y bydd ein staff yn glynu wrth ganllawiau cyfredol COVID 19 ac y byddwn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd barchu'r rheolau sy'n ymwneud â phellter cymdeithasol 2m ac nad ydynt yn agosau tuag at y gweithlu o fewn y pellter hyn.

Er mwyn lleihau cyswllt â'r cyhoedd yn ystod y cyfnod yma gobeithiwn gyfathrebu drwy e-bost lle bo modd a mae'n bosib cofrestru am wybodaeth ar gael ar ein gwefan Gymunedol:  
<https://community.alungriffiths.co.uk/rhostryfan-flood-alleviation-scheme/>

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglyn â'r gwaith yma, mae croeso i chi gysylltu â mi ar y manylion cyswllt isod.

Yn gywir

*Mandy Evans*

Mandy Evans  
Swyddog Cyswllt Cyhoeddus  
Ar ran Alun Griffiths (Contractors) Ltd

03300412185  
mandy.evans@alungriffiths.co.uk